**LC541**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2297 (W. 226)**

Mae'r rheoliadau hyn yn dynodi ardaloedd eraill yng Nghymru fel parthau sy'n agored i nitradau ac yn cyflwyno gweithdrefn lle y gall person â diddordeb yn y tir a ddynodir ofyn i'r dynodiad hwn gael ei ailasesu.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau**

Mae'n bosibl y bydd y cyfeiriad at adran 225 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn y rheoliad newydd 3C(3)(c) yn gweithredu i bob diben i roi i'r "prif swyddog" y rhwymedigaethau a roddir ar y swyddog "priodol". Awgrymir, fodd bynnag, gan fod adran 225 yn seiliedig ar y cysyniad o "swyddog priodol" (fel y'i diffiniwyd yn adran 270(3)) byddai wedi bod yn fwy priodol pe bai rheoliad 3C(3)(c) wedi cyfeirio at "y swyddog priodol" yn hytrach na'r "prif swyddog".

Yn rheoliad 1(3) yn y testun Saesneg, hepgorir "Agricultural" o deitl rheoliadau 1996. Nodwyd rhai pwyntiau teipograffyddol a gramadegol yn y testun Cymraeg.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Hydref 2002